

## Uned 3 i

### Pathogenau sy'n Achosi Afiechyd Mewn Anifeiliaid Fferm

#### Taflen Wybodaeth

##### Cyflwyniad

Organebau byw yw pathogenau sy'n achosi afiechyd mewn anifeiliaid fferm. Gellir eu galw hefyd yn gyfryngau Biolegol. Mae rhai cyfryngau biolegol da ar y fferm sy'n angenrheidiol e.e. bacteria sy'n gyfrifol am gadw silwair yn faethlon.

##### Sut mae pathogenau'n mynd i mewn i'r corff?

3 prif ffordd

1. Mewnanadliad - cael ei anadlu i mewn
2. Amlynciad - cael eu bwyta
3. Trwy doriad yn y croen

##### Prif Nodweddion Pathogenau:

- Mae Pathogenau'n hoffi mynd allan o gorff anifail heintiedig
- Lluosi'n gyflym
- Maen nhw angen cynhaliwr i fyw ynddo neu arno
- Mae ganddyn nhw fecanweithiau goroesi ac addasu da
- Maen nhw'n hoffi symud o anifail i anifail

Ystyr Bioggiogelwch ydi atal pathogenau rhag mynd i mewn neu allan o fferm. Mae hefyd yn cynnwys bioggiogelwch adeiladau fferm dda h.y. os oes clefyd yn bresennol ar fferm, dylai bioggiogelwch ei atal rhag ymledu.

##### Organebau Pathogenig

Mae pawb yn gwybod am y peryglon all ddod oherwydd lluo o 'bygiau'. Term cyffredin yw 'Bygiau' am organebau fel bacteria, firyssau, ffyngau a nifer o heintiau eraill.

Mae'r cyfryngau afiechyd biolegol hyn hefyd yn organebau byw. Y 6 prif grŵp o gyfryngau biolegol yw:

1. Bacteria
2. Firyssau
3. Ffyngau
4. Protosoa
5. Parasitiaid
6. Rickettsias

##### 1. Beth ydi nodweddion Bacteria?

- Organebau bychain sy'n achosi clefydau
- Llauer o fathau, siapiau a meintiau (crwn, siâp rhoden, troellog)
- Yn medru tyfu a lluosu y tu allan i'r celloedd lletyol
- Yn gallu byw fel sborau am flynyddoedd lawer (gall y rhain fod yn anodd eu lladd gan ddiheintyddion)
- Gellir eu gweld gyda microsgop golau
- Gallant ymateb i antibiotigau

Enghreifftiau: Mastitis, Clwy' Traed, Clefyd y Cymalau, Anthracs.

## 2. Beth ydi nodweddion Firysau?

- Organebau bychain iawn sy'n achosi clefydau
- Dim ond yn gallu lluosu o fewn celloedd byw eraill
- Yn aml yn heintus iawn
- Gallant gael eu lladd gan ddiheintyddion pan fyddan nhw y tu allan i'r corff
- Ni ellir eu gweld gan ficrosgop cyffredin
- Nid ydynt yn tueddu i ymateb i antibiotigau

Enghreifftiau: Clwy' Traed a'r Genau, Orff.

## 3. Beth ydi nodweddion Pathogenau Ffwngaid?

- Byw ar y croen
- Yn gallu treiddio i'r croen pan fydd crafiad neu doriad yn unig
- Yn tueddu i gael eu lladd gan olau uwchfioled
- Yn gallu byw ar goed am flynyddoedd
- Dim yn cael eu lladd gan antibiotigau

Enghraifft: Tarwden.

## 4. Beth ydi nodweddion Protosoa?

- Organebau ungellog sy'n symud o gwmpas mewn hylif trwy symud eu cynffonnau
- Dim yn cael eu lladd gan antibiotigau
- Cael eu lladd gan cocsidiostat

Enghreifftiau: Tocsoplasmosis, Cocsidiosis.

## 5. Beth ydi nodweddion Parasitiaid?

Organebau ydi parasitiaid sy'n byw y tu mewn neu y tu allan i'r cynhaliwr. Maent yn cael eu holl faeth o'r cynhaliwr, gan roi dim yn ôl. Mae parasitiaid allanol a mewnol yn achosi afiechyd e.e. y clafr neu llyngyr. Fodd bynnag, nid ydynt yn bathogenaidd gan nad ydynt yn achosi 'haint'.

### Parasitiaid Mewnol ac Allanol Cyffredin:

- Y Clafr
- Llau
- Trogod
- Nematodiriws
- Llyngyr yr Ysgyfaint
- Ffliwc yr Iau/Clefyd yr Euod.

## 6. Beth ydi nodweddion Rickettsia?

Mae Rickettsia yn perthyn i grŵp o ficro-organebau sydd (fel firysau) angen celloedd byw eraill i dyfu ond (fel bacteria) yn defnyddio ocsigen. Mae ganddyn nhw ensymau a waliau cell fetabolig, ac yn dueddol i antibiotigau.

- Bacteria gram-negatif disymud yw'r rhain
- Parasitiaid mewngellol sy'n dibynnu ar y gell i dyfu a dyblygu
- Dim yn gallu byw y tu allan i gynhaliwr
- Yn cael eu lladd gan antibiotigau
- Maent yn cael eu cario gan barasitiaid eraill megis trogod, chwain a llau

Enghreiffiau: Clefyd Trogod, Clefyd Q.